

# Dyfarnu Grantiau, Benthyciadau a Nawdd: Materion yn ymwneud â'r Gymraeg



**Bwrdd yr Iaith Gymraeg**

Siambrau'r Farchnad  
5-7 Heol Eglwys Fair  
Caerdydd  
Cymru CF10 1AT

**Ffôn:** 029 2087 8000

**Ffacs:** 029 2087 8001

[post@bwrdd-yr-iaith.org.uk](mailto:post@bwrdd-yr-iaith.org.uk)

[www.bwrdd-yr-iaith.org.uk](http://www.bwrdd-yr-iaith.org.uk)

# Dyfarnu Grantiau, Benthyciadau a Nawdd: Materion yn ymwneud â'r Gymraeg



## 1. Cyflwyniad

- 1.1 Cyhoeddir y cyngor hwn o dan Adran 3 Deddf yr Iaith Gymraeg 1993.
- 1.2 Dylai cyrff cyhoeddus sydd â chynlluniau iaith Gymraeg fabwysiadu'r arferion a'r egwyddorion a amlinellir yn y ddogfen hon. Mae'n disgrifio sut y dylent sicrhau bod mudiadau gwirfoddol a sefydliadau preifat sy'n derbyn grantiau, benthyciadau, nawdd neu arian arall yn gwneud defnydd priodol o'r Gymraeg pan fyddant yn ymgymryd â gweithgareddau yng Nghymru<sup>1</sup>.
- 1.3 Mae'r cyngor hwn yn berthnasol hefyd i sefydliadau nad ydynt yn gyrrff cyhoeddus, pan fyddant yn dosbarthu grantiau ar ran corff cyhoeddus.
- 1.4 Mae'r cyngor hwn yn berthnasol yn unig i weithgareddau sy'n cael eu hariannu gan grantiau ac sydd wedi eu hanelu at y cyhoedd yng Nghymru<sup>2</sup>. Mae'r gweithgareddau hynny'n cynnwys darparu nwyddau a gwasanaethau; trefnu gweithgareddau y mae'r cyhoedd yn cymryd rhan ynddynt; dosbarthu deunydd printiedig a chyhoeddi gwefannau.
- 1.5 Mae'r cyngor hwn yn berthnasol hefyd yn achos grantiau a roddir i unigolion (ond dim ond os yw'r unigolyn dan sylw'n bwriadu defnyddio'r arian ar gyfer gweithgarwch sy'n cynnwys darparu nwyddau neu wasanaethau i aelodau eraill o'r cyhoedd)<sup>3</sup>.
- 1.6 Yn y rhan fwyaf o achosion, nid yw'r cyngor hwn yn berthnasol i arian a ddosberthir i gyrrff cyhoeddus sydd â chynlluniau iaith Gymraeg, gan y bydd gweithgareddau'r sefydliadau hynny'n cael eu rheoli gan y cynlluniau hynny. Eithriad i hyn, fodd bynnag, yw pan ofynnir i gyrrff cyhoeddus weinyddu cynlluniau grant ar ran corff cyhoeddus arall. Byddai'r canllawiau hyn yn berthnasol i'r cynlluniau grant hynny.

---

<sup>1</sup> Yng ngweddill y ddogfen hon mae'r term 'grant' yn cynnwys benthyciadau, nawdd ac arian arall.

<sup>2</sup> Yn y ddogfen hon mae'r term 'y cyhoedd' yn cyfeirio at unigolion, personau cyfreithiol a chyrrff corfforaethol. Mae hefyd yn cynnwys y cyhoedd yn ei gyfanrwydd, neu gyfran o'r cyhoedd, yn ogystal ag aelodau unigol o'r cyhoedd. Mae'r term hefyd yn cynnwys cyrff gwirfoddol ac elusennau. Mae cyfarwyddwyr ac eraill sy'n cynrychioli cwmnïau cyfyngedig hefyd yn dod o fewn y diffiniad o'r term 'y cyhoedd'.

<sup>3</sup> Er enghraifft, efallai y bydd grant a ddyfernir i artist yn golygu y bydd angen cynhyrchu taflenni dwyieithog i hyrwyddo arddangosfa mewn oriel. Ar y llaw arall, ni fydd rhaid i grant sy'n cynorthwyo astudio neu ddysgu preifat gynnwys unrhyw amodau o ran yr iaith.

## 2. Cefndir

- 2.1 O dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg, mae'n ofynnol i gyrff cyhoeddus sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru baratoi cynlluniau iaith Gymraeg statudol, sy'n amlinellu sut y byddant yn trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal. Disgwylir i gyrff y Goron hefyd baratoi cynlluniau. Mae cynlluniau iaith Gymraeg hefyd wedi'u paratoi gan sefydliadau yn y sector gwirfoddol a'r sector preifat.
- 2.2 Mae'r rhan fwyaf o gynlluniau iaith Gymraeg yn cynnwys ymrwymiad i sicrhau bod amodau o ran defnyddio'r Gymraeg wedi eu cynnwys gydag unrhyw gynnig o grant neu fenthyciad. Dylai unrhyw gynllun nad yw'n cynnwys ymrwymiad o'r fath gael ei ddiwygio gan y corff cyhoeddus dan sylw, o dan adran 16 y Ddeddf. Byddai geiriad priodol fel a ganlyn:
- Pan fyddwn yn dyfarnu grantiau a benthyciadau ar gyfer gweithgareddau i'w cynnal yng Nghymru, byddwn yn cynnwys amodau o ran defnyddio'r Gymraeg. Wrth wneud hyn, byddwn yn ystyried canllawiau Bwrdd yr Iaith Gymraeg ar ddyfarnu grantiau a benthyciadau.
- 2.3 Dangosodd ymchwil a gomisiynwyd gan y Bwrdd mai ychydig yn unig o gyrff cyhoeddus a oedd â gweithdrefnau i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r ymrwymiad<sup>4</sup>. Cynhyrchwyd y cyngor hwn, felly, i sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn gweithredu'n unol â'u cynlluniau iaith Gymraeg eu hunain.

## 3. Egwyddorion cyffredinol

- 3.1 Pan fyddant yn dyfarnu grantiau i fudiad (boed am y tro cyntaf, neu wrth adnewyddu grant), dylai cyrff cyhoeddus sicrhau bod yr egwyddor o gydraddoldeb ieithyddol yn cael ei hadlewyrchu yn y gweithgarwch sy'n derbyn y grant. Mae cyrff cyhoeddus yn cael eu hariannu ag arian cyhoeddus, a daw'r grantiau a ddsberthir ganddynt o gyllid cyhoeddus. Felly, dylai'r egwyddor o gydraddoldeb cael ei hadlewyrchu yn y defnydd a wneir o'r arian hwnnw.
- 3.2 Dylai cyrff cyhoeddus, felly, sicrhau bod sylw dyledus yn cael ei roi i'r iaith yn y canlynol:
- ffurflenni cais am grantiau (ac unrhyw gyfarwyddyd neu nodiadau esboniadol)
  - gweithdrefnau sy'n asesu ceisiadau am grant
  - yr amodau a amlinellir mewn llythyrau sy'n cynnig cymorth grant
  - systemau monitro.
- 3.3 Ni fwriedir i'r cyngor hwn fod yn gyfarwyddol. Os glynir wrth yr egwyddorion cyffredinol a amlinellir yn y ddogfen hon, bydd yr union drefniadau y cytunir arnynt ym mhob achos yn ddibynnol ar natur pob corff cyhoeddus a'r cynlluniau grant a weinyddir ganddo. Mae'r gweithdrefnau manwl a amlinellir isod yn cael eu cynnig, felly, fel *enghreifftiau* o'r ffordd orau i ystyried y Gymraeg wrth weinyddu cynlluniau grant.

---

<sup>4</sup> Arolwg i'r Broses Dyrannu Nawdd a Grantiau Cyhoeddus: Egni Cyf: Mawrth 2005.

## 4. Grantiau a ddosberthir gan fudiadau bach – a grantiau bach.

- 4.1 Yn achos sefydliadau llai nad ydynt yn defnyddio proses ymgeisio ffurfiol, dylid ystyried y gweithgarwch sydd i gael ei ariannu, ynghyd â maint y grant y gwneir cais amdano, er mwyn dod i benderfyniad ynglŷn â'r angen i gynnwys amod iaith gyda'r grant. Gallai amod o'r fath, er enghraifft, fynnu y dylai arwydd ar gyfer garddwest bentref fod yn ddwyieithog. Dylai'r sefydliadau hyn hefyd roi cyhoeddusrwydd i'r ffaith eu bod yn disgwyl i'r sawl sy'n derbyn grant ddefnyddio'r Gymraeg – a hysbysu'r grwpiau hynny sy'n arfer dod atynt am gefnogaeth o'r ffaith honno. Yn achos cynghorau cymuned, ymdrinnir â'r mater hwn hefyd yn adran 4.4 y cynllun iaith Gymraeg safonol a baratowyd ar eu cyfer gan y Bwrdd.
- 4.2 Dylid cadw'r cyngor yma mewn cof wrth weinyddu pob cynllun grant, beth bynnag fo maint y cynllun a'r grantiau a ddosberthir ym mhob achos. Hyd yn oed pan fo'r grantiau a gynigir yn fach, gall fod yn briodol i gynnwys amodau o ran defnyddio'r Gymraeg (er enghraifft, gellir dyfarnu grant bach i gyhoeddi taflen wybodaeth gydag amod yn dweud bod rhaid i'r daflen fod yn ddwyieithog). O'r herwydd, rhaid cofio y bydd amodau o ran defnyddio'r Gymraeg, yn y rhan fwyaf o achosion, yn berthnasol yn unig i'r gweithgarwch *penodol* y gwneir cais am arian i'w gefnogi.

## 5. Y broses o wneud cais

- 5.1 Mae'r gweithdrefnau canlynol yn berthnasol yn unig i'r sefydliadau hynny sy'n defnyddio proses ffurfiol i wneud cais am grant:
- dylai **ffurflenni cais** gynnwys adran benodol sy'n delio â defnyddio'r Gymraeg, lle gall ymgeiswyr egluro pa ddefnydd a wneir o'r iaith fel rhan o'r gweithgareddau a gaiff eu hariannu
  - dylai **nodiadau cyfarwyddyd** sy'n cyd-fynd â'r ffurflenni cais egluro'r canlynol:
    - y gellir cynnwys amodau yn ymwneud â defnyddio'r Gymraeg ynghlwm wrth unrhyw grant a gynigir
    - mae defnyddio'r Gymraeg yn cael ei gyfrif fel arfer da a gall sicrhau bod y gweithgarwch sy'n cael ei ariannu lwyddo'n well i gwrdd ag anghenion siaradwyr Cymraeg a dysgwyr
    - dylai **gwasanaethau wyneb yn wyneb**, neu weithgareddau y bydd y cyhoedd yn cymryd rhan ynddynt, fod ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg. Derbynnir, fodd bynnag, y bydd gallu mudiad i gyflawni hyn yn ddibynnol ar gael gafael ar staff a gwirfoddolwyr sy'n medru'r Gymraeg. Mae Paragraffau 9.2 ac 9.3 yn cynnwys trafodaeth fanylach ar wasanaethau wyneb yn wyneb

- dylai unrhyw **ddeunydd printiedig** a gynhrychir gyda chefnogaeth grant fod yn gwbl ddwyieithog (mae hyn yn cynnwys taflenni, llyfrynau, arwyddion, poster, deunydd pacio, cyfarwyddiadau i ddefnyddwyr, bwydlenni a deunydd marchnata, cyhoeddusrwydd ac arddangos)
- dylai unrhyw **dudalennau gwefan** a gynhrychir gyda chefnogaeth grant gael eu cyhoeddi yn y Gymraeg a'r Saesneg.
- mewn rhai amgylchiadau, gall fod yn dderbyniol **i beidio defnyddio Cymraeg** (cyfeirir at yr amgylchiadau hyn yn atodiad 1 y ddogfen hon)
- yn yr un modd, gall fod yn dderbyniol **i beidio defnyddio Saesneg**, yn yr amgylchiadau canlynol:
  - bod y cymorth grant yn cael ei ddefnyddio gan fudiad sy'n darparu gwasanaethau ar gyfer ei aelodau yn unig – a'r aelodau hynny am i'r gwasanaethau a'r gweithgareddau hynny gael eu darparu trwy gyfrwng y Gymraeg yn unig
  - bod y cymorth grant yn cael ei ddefnyddio gan fudiad a sefydlwyd yn bennaf i hyrwyddo a hwyluso defnyddio'r Gymraeg
  - ei bod yn hysbys nad yw'r bobl a fydd yn elwa ar y gwasanaeth am ddefnyddio'r Saesneg.
- hefyd, dylai nodiadau cyfarwyddyd gyfeirio ymgeiswyr at **ffynonellau cyngor ar ddefnyddio'r Gymraeg**, megis y corff cyhoeddus ei hun, y fenter iaith leol, Bwrdd yr Iaith Gymraeg ([www.bwrdd-yr-iaith.org.uk](http://www.bwrdd-yr-iaith.org.uk)), Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru ([www.wcva.org.uk](http://www.wcva.org.uk)) a Chymdeithas Cyfieithwyr Cymru ([www.cyfieithwycymru.org.uk](http://www.cyfieithwycymru.org.uk)). Hefyd mae nifer o ymgynghorwyr annibynnol yn gallu cynnig arweiniad a chefnogaeth; mae rhagor o fanylion am y rhain ar gael oddi wrth Fwrdd yr Iaith Gymraeg.

## 6. Costau

- 6.1 Dylai'r sawl sy'n gwneud cais am grant nodi'r gost o weithredu'n ddwyieithog. Dylai ffurflenni cais a nodiadau cyfarwyddyd esbonio hyn.
- 6.2 Dylid ei gwneud yn amlwg i ymgeiswyr na fydd unrhyw gostau ychwanegol sy'n deillio o weithredu'n ddwyieithog yn lleihau eu siawns o dderbyn cymorth grant. Yn wir, dylid eu hatgoffa y bydd eu gallu i weithredu'n ddwyieithog yn un o'r ffactorau a gaiff eu hystyried wrth asesu eu cais ac y bydd cynllunio da o ran yr iaith yn helpu eu cais – ac yn arwain at sgôr uwch.

- 6.3 Mae'n bwysig cofio nad yw darparu gwasanaethau yn y Gymraeg bob amser yn golygu costau ychwanegol. Er enghraifft, gall staff a gwirfoddolwyr sy'n medru'r Gymraeg ddarparu gwasanaethau wyneb yn wyneb yn Gymraeg heb unrhyw gostau ychwanegol. Gall siaradwyr sy'n hyderus eu Cymraeg hefyd ysgrifennu'n Gymraeg, ac felly gallant gynorthwyo i baratoi dogfennau, cynnwys gwefannau ac ymateb i ohebiaeth.
- 6.4 Mae cyngor pellach ar y gost o weithredu'n ddwyieithog ar gael yn y ddogfen *Canllawiau Dylunio Dwyieithog* a gyhoeddwyd gan y Bwrdd ac yn nogfen y Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru *O'n Gwirfodd*, sydd i'w cael ar wefannau'r cyrff hyn.
- 6.5 Yn y pen draw, mae'r cyngor hwn yn seiliedig ar yr egwyddor o gydraddoldeb a amlinellir yn Neddf yr Iaith Gymraeg. Mae gweithredu'n unol â'r Ddeddf honno'n fater cydymffurfiaeth i gyrrff cyhoeddus, fel sy'n wir hefyd am ddeddfwriaethau cydraddoldeb eraill.

## 7. Y broses asesu

- 7.1 Dylai staff sy'n gweinyddu cynlluniau grant fod yn ymwybodol o gynllun iaith Gymraeg y corff cyhoeddus a'r cyngor hwn.
- 7.2 Gellir defnyddio systemau sgorio i asesu i ba raddau y mae materion yn ymwneud â'r Gymraeg wedi derbyn sylw priodol. Dylid defnyddio'r rhain fel systemau ar wahân, yn hytrach na fel cyfraniad at sgôr cyffredinol.
- 7.3 Mae system a *awgrymir* wedi ei gynnwys yn atodiad 1. Gall cyrff cyhoeddus, wrth gwrs, ddatblygu eu prosesau asesu eu hunain (nid yw atodiad 1 yn gyfarwyddol, felly). Pa bynnag system a ddefnyddir, dylai fod yn rhan anhepgor o'r broses asesu grantiau, i sicrhau bod y Gymraeg yn cael eu hystyried ochr yn ochr â'r holl faterion eraill wrth i geisiadau am grant gael eu hasesu.
- 7.4 Dylai'r system sgorio gynorthwyo aseswyr yn y dasg o benderfynu a yw'r ymgeisydd yn bwriadu gwneud defnydd priodol o'r Gymraeg – ac a ddylid cynnig cymorth grant.
- 7.5 Gellir rhestru'r gweithgareddau a'r meini prawf a geir yn y system sgorio ar y ffurflen gais hefyd i hwyluso'r broses sgorio a sicrhau cysondeb wrth asesu ceisiadau am grant.
- 7.6 Er nad yw'n hanfodol, dylai aseswyr gyda chymwysterau addas sy'n medru'r Gymraeg fod ar gael i brosesu ceisiadau a gyflwynir yn y Gymraeg; byddai hyn yn golygu na fyddai angen cyfieithu'r ceisiadau, gan sicrhau bod gan yr asesydd ddealltwriaeth drylwyr o gais pob ymgeisydd. Hefyd, bydd yr aseswyr yn gallu delio ag ymgeiswyr Cymraeg eu hiaith yn iaith eu dewis.



## 8. Cynnig neu wrthod grant

- 8.1 Dylai llythyrau sy'n cynnig grant (neu'r telerau ac amodau sy'n cael eu hamgáu yn y llythyrau hynny) ei gwneud yn amlwg bod y cynnig yn cael ei wneud yn amodol ar ddefnydd yr ymgeisydd o'r Gymraeg fel yr amlinellwyd yn y cais (ac a drafodwyd wedi hynny ac y cytunwyd arno, os yw'r broses asesu wedi canfod unrhyw fater sydd angen ei drafod ymhellach gyda'r ymgeisydd).
- 8.2 Ni ddylai ymgeiswyr nad ydynt yn bwriadu gwneud defnydd priodol o'r Gymraeg fel rhan o'r gweithgareddau a ariennir gan arian cyhoeddus dderbyn cymorth grant. At ei gilydd, dylid rhagdybio na chynigir grant i unrhyw ymgeisydd sy'n sgorio llai na thri allan o dri yn atodiad 1. Argymhellir, fodd bynnag, fod pob ymdrech yn cael ei wneud i osgoi sefyllfa o'r fath pan fo hynny'n bosibl, trwy drafodaeth gyda'r ymgeiswyr – a thrwy eu hannog i wneud defnydd priodol o'r iaith.

## 9. Monitro

- 9.1 Dylai llythyrau sy'n cynnig grant egluro y bydd unrhyw systemau monitro sy'n gysylltiedig â'r cynllun grant yn cynnwys monitro'r defnydd a wneir o'r Gymraeg.
- 9.2 O ran darparu gwasanaethau wyneb yn wyneb a gweithgareddau yn y Gymraeg mae'n bosibl y bydd mudiad wedi gwneud pob ymdrech i gael staff neu wirfoddolwyr sy'n medru'r Gymraeg, ond heb lwyddo i recriwtio unrhyw un. Mewn achos o'r fath, dylid gofyn i'r mudiad ddangos tystiolaeth o'u hymdrechion i wneud hynny. Gallai hynny gynnwys asesiad o ble mae angen siaradwyr Cymraeg o fewn y mudiad – ynghyd â'r camau a gymerwyd wrth geisio:
- recriwtio siaradwyr Cymraeg
  - cynnig cyfle i siaradwyr Cymraeg symud i swyddi lle gellid manteisio ar eu sgiliau iaith
  - darparu gwersi Cymraeg, gan gynnwys cyrsiau gloywi.
- 9.3 Dylent hefyd esbonio pa gamau y maent yn bwriadu eu cymryd i wella eu gallu i ddarparu gwasanaethau yn y Gymraeg yn y dyfodol. Derbynnir, serch hynny, y cymer amser i rai mudiadau feithrin y gallu hwnnw. Fodd bynnag, os bydd y broses monitro'n dangos nad oes llawer neu ddim ymdrech yn cael ei wneud i recriwtio staff neu wirfoddolwyr Cymraeg eu hiaith, dylid cadw hyn mewn cof pe bai'r mudiad yn gwneud cais am ragor o arian yn y dyfodol; oni bai bod strategaeth eglur ar gyfer recriwtio siaradwyr Cymraeg yn cael ei chyflwyno yn y broses asesu gydag unrhyw gais am grant yn y dyfodol, dylid rhoi sgôr o sero i'r ymgeisydd o ran gweithgareddau wyneb yn wyneb.

- 9.4 Dylid hefyd ystyried y pwyntiau a amlinellir yn adrannau 9.2 a 9.3, uchod, wrth ddyfarnu grant i fudiad am y tro cyntaf.
- 9.5 Unwaith eto, gall fod yn fantais i gael staff gyda chymwysterau addas sy'n medru siarad Cymraeg i ymgymryd â gwaith monitro. Bydd hyn yn eu galluogi i ddelio â derbynwyr grant Cymraeg eu hiaith yn iaith eu dewis.

## **10. Cynlluniau Iaith Gymraeg fel amod grant**

- 10.1 Mewn achosion arbennig, gallai amod sydd ynghlwm wrth grant olygu bod rhaid i fudiad baratoi ei gynllun iaith Gymraeg ei hun (er enghraifft, pan fyddai grant sylweddol iawn yn cael ei gynnig, neu pan fyddai grant yn cyfrif am gyfran uchel iawn o gostau cyfalaf neu graidd y mudiad). Yn yr achosion hyn, Bwrdd yr Iaith Gymraeg fydd yn gyfrifol am gynnig arweiniad – ac am gymeradwyo'r cynllun.

## **11. Hyfforddiant**

- 11.1 Dylai staff sy'n gweinyddu cynlluniau grant gael cynnig hyfforddiant i sicrhau eu bod yn deall ac yn gweithredu'r cyngor hwn yn briodol.
- 11.2 Hefyd, bydd y Bwrdd yn dosbarthu'r cyngor hwn i sefydliadau hyfforddi ac yn eu hannog i ddatblygu modiwlau hyfforddi priodol.

## **12. Y Camau Nesaf**

- 12.1 Dylai pob corff cyhoeddus sydd â chynllun iaith Gymraeg sicrhau eu bod yn gallu gweithredu yn unol â'r arferion, yr egwyddorion a'r canllawiau sydd wedi eu hamlinellu yn y ddogfen hon.
- 12.2 Yn Atodiad 2 ceir rhestr wirio i helpu gyda'r dasg o sicrhau bod cynlluniau grant yn cydymffurfio â'r canllaw hwn.

### **Bwrdd yr Iaith Gymraeg**

Mawrth 2007.



## Atodiad 1

# Asesu Ceisiadau am Grant: Ffurflen Asesu'r Gymraeg

Ym mhob rhan o'r ffurflen asesu, dewiswch **un** datganiad yn unig sy'n adlewyrchu orau'r wybodaeth a roddwyd gan yr ymgeisydd. Nodwch mai ond **un** sgôr y gellir ei roi yn mhob adran.

## Adran 1: Gwasanaethau a gweithgareddau wyneb yn wyneb y bydd y cyhoedd yn cymryd rhan ynddynt.

Dewiswch un datganiad sy'n adlewyrchu orau'r wybodaeth a roddwyd gan yr ymgeisydd, ac yna dilynwch y cyfarwyddiadau.

Sgôr

Bydd gwasanaethau a/neu weithgareddau wyneb yn wyneb ar gael, ac yn cael eu cynnig yn y Gymraeg: <b>rhowch sgôr o 1 yma, yna ewch yn syth i adran 2.</b>	
Ni fydd y grant yn ariannu unrhyw wasanaethau neu weithgareddau wyneb yn wyneb: <b>rhowch sgôr o 1 yma, yna ewch yn syth i adran 2.</b>	
Mae'r ymgeisydd wedi ei gwneud yn amlwg <i>na fydd</i> gwasanaethau a/neu weithgareddau wyneb yn wyneb ar gael yn y Gymraeg ac mae wedi egluro pam. <b>Ewch yn syth i'r grid melyn, isod.</b>	
Mae'r ymgeisydd wedi ei gwneud yn amlwg na fydd gwasanaethau a/neu weithgareddau wyneb yn wyneb ar gael yn y Gymraeg, ond nid yw wedi egluro pam. Neu, nid yw'n eglur a fydd y gwasanaethau a/neu weithgareddau hyn ar gael yn y Gymraeg. <b>Gofynnwch i'r ymgeisydd am ragor o fanylion; yna dechreuwch ar yr asesiad eto.</b>	

Dewiswch un datganiad sy'n adlewyrchu orau'r wybodaeth a roddwyd gan yr ymgeisydd, ac yna dilynwch y cyfarwyddiadau.

Sgôr

Mae'r ymgeisydd wedi rhoi gwybodaeth sy'n dangos y bydd y cymorth grant yn cael ei ddefnyddio gan fudiad sy'n darparu gwasanaethau a gweithgareddau wyneb yn wyneb i'w aelodau'n unig – ac nad yw'r aelodau hynny am i'r gwasanaethau a'r gweithgareddau hynny gael eu darparu trwy gyfrwng y Gymraeg: <b>rhowch sgôr o 1 yma, yna ewch yn syth i adran 2.</b>	
Mae'r ymgeisydd wedi rhoi gwybodaeth sy'n dangos ei bod yn hysbys nad yw'r bobl a fydd yn elwa ar y gweithgarwch am ddefnyddio'r Gymraeg: <b>rhowch sgôr o 1 yma, yna ewch yn syth i adran 2.</b>	
Nid oes gan yr ymgeisydd staff na gwirfoddolwyr a all ddarparu gwasanaethau a/neu weithgareddau yn Gymraeg (ond mae wedi egluro pa gamau a gymerir i'w alluogi i ddarparu'r gwasanaethau a'r gweithgareddau hyn yn y Gymraeg yn y dyfodol): <b>rhowch sgôr o 1 yma, yna ewch yn syth i adran 2.</b>	
Bydd yr arian yn cael ei ddefnyddio ar gyfer gweithgarwch fel llwyfannu drama, neu gyhoeddi llyfr, mewn iaith heblaw'r Gymraeg (er y dylai unrhyw ddeunydd cysylltiedig, fel taflenni hysbysebu, fod yn ddwyieithog): <b>rhowch sgôr o 1 yma, yna ewch yn syth i adran 2.</b>	
Mae'r arian yn grant argyfwng sy'n cael ei gynnig i sicrhau na fydd gweithgarwch neu fudiad yn gorfod dod i ben: <b>rhowch sgôr o 1 yma, yna ewch yn syth i adran 2.</b>	
Bydd yr arian yn cyfrif am gyfran fechan iawn yn unig o gostau'r gweithgarwch (llai na 5%, fel arfer): <b>rhowch sgôr o 1 yma, yna ewch yn syth i adran 2.</b>	
Mae'r ymgeisydd wedi rhoi rheswm derbyniol arall dros beidio darparu gwasanaethau a/neu weithgareddau wyneb yn wyneb yn Gymraeg: <b>rhowch sgôr o 1 yma, yna ewch yn syth i adran 2.</b>	
Mae'r ymgeisydd wedi methu cyflwyno rheswm boddhaol dros beidio darparu gwasanaethau a/neu weithgareddau wyneb yn wyneb yn Gymraeg: <b>rhowch sgôr o 0 yma, yna ewch yn syth i adran 2.</b>	

## Adran 2: Deunydd printiedig, gan gynnwys arwyddion a deunydd marchnata, i gael ei ariannu gan grant

Dewiswch un datganiad sy'n adlewyrchu orau'r wybodaeth a roddwyd gan yr ymgeisydd ac yna dilynwch y cyfarwyddiadau.

Sgôr

Bydd yr holl ddeunydd printiedig ar gael yn y Gymraeg: <b>rhowch sgôr o 1 yma, yna ewch yn syth i adran 3.</b>	
Ni fydd y grant yn ariannu unrhyw ddeunydd printiedig: <b>rhowch sgôr o 1 yma, yna ewch yn syth i adran 3.</b>	
Mae'r ymgeisydd wedi ei gwneud yn amlwg <i>na fydd</i> yr holl ddeunydd printiedig, neu ran ohono, ar gael yn y Gymraeg <i>ac</i> mae wedi egluro pam. <b>Ewch yn syth i'r grid melyn, isod.</b>	
Mae'r ymgeisydd wedi ei gwneud yn amlwg <i>na fydd</i> yr holl ddeunydd printiedig, neu ran ohono, ar gael yn y Gymraeg ond <i>nid</i> yw wedi egluro pam. Neu, <i>nid</i> yw'n eglur a fydd unrhyw ddeunydd printiedig ar gael yn y Gymraeg. <b>Gofynnwch i'r ymgeisydd am ragor o fanylion; yna dechreuwch ar yr asesiad eto.</b>	

Dewisiwch un datganiad sy'n adlewyrchu orau'r wybodaeth a roddwyd gan yr ymgeisydd ac yna dilynwch y cyfarwyddiadau.

Sgôr

Mae'r ymgeisydd wedi rhoi gwybodaeth sy'n dangos y bydd y deunydd printiedig yn cael ei ddefnyddio gan fudiad sy'n darparu gwasanaethau i'w aelodau'n unig – ac nad yw'r aelodau hynny am i'r deunyddiau hynny fod ar gael yn y Gymraeg: <b>rhowch sgôr o 1 yma, yna ewch yn syth i adran 3.</b>	
Mae'r ymgeisydd wedi rhoi gwybodaeth sy'n dangos ei bod yn hysbys nad yw'r bobl a fydd yn elwa ar y gweithgarwch am gael deunydd printiedig yn y Gymraeg <b>rhowch sgôr o 1 yma, yna ewch yn syth i adran 3.</b>	
Pe baem yn argraffu'r deunydd, ni fyddem yn gwneud hynny yn y Gymraeg (o dan delerau ein cynllun iaith Gymraeg): <b>rhowch sgôr o 1 yma, yna ewch yn syth i adran 3.</b>	
Mae'r ymgeisydd wedi rhoi rheswm derbyniol arall dros beidio darparu deunydd printiedig yn y Gymraeg: <b>rhowch sgôr o 1 yma, yna ewch yn syth i adran 3.</b>	
Mae'r ymgeisydd wedi methu rhoi rheswm boddhaol dros beidio â darparu deunydd printiedig yn y Gymraeg: <b>rhowch sgôr o 0 yma, yna ewch yn syth i adran 3.</b>	

## Atodiad 1

### Adran 3: Tudalennau gwefan i gael eu hariannu gan grant

Dewisiwch un datganiad sy'n adlewyrchu orau'r wybodaeth a roddwyd gan yr ymgeisydd ac yna dilynwch y cyfarwyddiadau.

**Sgôr**

Bydd unrhyw dudalennau gwefan a ariennir gan grant yn cael eu cyhoeddi yn y Gymraeg: <b>rhowch sgôr o 1 yma, yna ewch yn syth i adran 4.</b>	
Ni fydd y grant yn ariannu unrhyw wefannau: <b>rhowch sgôr o 1 yma, yna ewch yn syth i adran 4.</b>	
Mae'r ymgeisydd wedi ei gwneud yn amlwg na fydd holl dudalennau'r wefan, neu rai ohonynt, ar gael yn y Gymraeg ac mae wedi egluro pam. <b>Ewch yn syth i'r grid melyn, isod.</b>	
Mae'r ymgeisydd wedi ei gwneud yn amlwg na fydd holl dudalennau'r wefan, neu rai ohonynt, ar gael yn Gymraeg ond nid yw wedi egluro pam. Neu, nid yw'n eglur a fydd unrhyw dudalennau o'r wefan a ariennir gan y grant ar gael yn Gymraeg. <b>Gofynnwch i'r ymgeisydd am ragor o fanylion; yna dechreuwch ar yr asesiad eto.</b>	

Dewisiwch un datganiad sy'n adlewyrchu orau'r wybodaeth a roddwyd gan yr ymgeisydd ac yna dilynwch y cyfarwyddiadau.

**Sgôr**

Mae'r ymgeisydd wedi rhoi gwybodaeth sy'n dangos bod tudalennau'r wefan at ddefnydd mudiad sy'n darparu gwasanaethau i'w aelodau'n unig – ac nad yw'r aelodau hynny am i'r tudalennau hynny gael eu cyhoeddi yn y Gymraeg: <b>rhowch sgôr o 1 yma, yna ewch yn syth i adran 4.</b>	
Mae'r ymgeisydd wedi rhoi gwybodaeth sy'n dangos ei bod yn hysbys nad yw'r bobl a fydd yn elwa ar y gweithgarwch am i dudalennau'r wefan gael eu cyhoeddi yn y Gymraeg: <b>rhowch sgôr o 1 yma, yna ewch yn syth i adran 4.</b>	
Pe baem yn cyhoeddi'r tudalennau gwefan, ni fyddant yn cael eu cyhoeddi yn y Gymraeg (o dan amodau ein cynllun iaith Gymraeg): <b>rhowch sgôr o 1 yma, yna ewch yn syth i adran 4.</b>	
Mae'r ymgeisydd wedi rhoi rheswm derbyniol arall dros beidio cyhoeddi tudalennau'r wefan yn y Gymraeg: <b>rhowch sgôr o 1 yma, yna ewch yn syth i adran 4.</b>	
Mae'r ymgeisydd wedi methu rhoi rheswm boddhaol dros beidio cyhoeddi tudalennau'r wefan yn y Gymraeg: <b>rhowch sgôr o 0 yma, yna ewch yn syth i adran 4.</b>	

### Adran 4: Asesiad

Adiwch y sgoriau o adrannau 1, 2 a 3.

Os yw'r sgôr yn 3, nid oes rheswm, o safbwynt y Gymraeg, dros beidio â dyrannu'r grant.

Os yw'r sgôr yn llai na 3, dylid rhagdybio na chynigir grant. Fodd bynnag, os yw'r ymgeisydd ar unrhyw adeg yn ystod y broses o wneud cais yn methu rhoi rhesymau da dros beidio â defnyddio'r Gymraeg, dylid ei gynghori i ystyried eto'r angen i ymgorffori'r iaith i'w gweithgareddau.

## Dyfarnu grantiau: Materion yn ymwneud â'r Gymraeg

### Rhestr wirio

Paratowyd y rhestr wirio hon i gynorthwyo gyda'r dasg o sicrhau bod cynlluniau grant yn cydymffurfio â'r cyngor a gyhoeddwyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg o dan adran 3 Deddf yr Iaith Gymraeg 1993.

Y camau allweddol yw:

- penodi aelod o staff i fod yn gyfrifol am y dasg ac i sicrhau cydymffurfiad
- cytuno ar amserlen ar gyfer cyflawni'r dasg
- adnabod cynlluniau grant sydd angen cydymffurfio
- diwygio ffurflenni cais
- diwygio nodiadau cyfarwyddyd/esboniadol
- datblygu systemau sgorio
- diwygio cyfarwyddiadau desg
- paratoi a darparu hyfforddiant i staff i'w galluogi i weithredu'r canllawiau hyn
- cael cytundeb mewnol ar y gweithdrefnau
- cael cytundeb Bwrdd yr Iaith Gymraeg ar y gweithdrefnau newydd
- diwygio cynllun iaith y mudiad, os bydd angen (fel y disgrifir yn adran *Cefndir* y cyngor hwn)
- rhoi'r gweithdrefnau newydd ar waith.

